

Cynllun Cydraddoldeb Strategol



Cynnwys

1 Rhagair gan y Prif Gwnstabl

2 Cyflwyniad

3 Gwerthoedd Heddlu Gwent

4 Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb

5 Cynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Heddlu Gwent

6 Gwybodaeth Cydraddoldeb

7 Asesu'r Effaith

8 Amcanion Cydraddoldeb

9 Adolygu ac Adrodd

10 Cyfrifoldebau

11 Casgliad

Atodiad 1: Cynllun Gweithredu

Fformatau hygyrch ac ieithoedd

Gellir trefnu bod y Cynllun hwn ar gael (ar gais) mewn ystod o fformatau eraill, gan gynnwys:

- Braille
- Cryno Ddisg Sain
- Hawdd Ei Ddarllen
- Electronig

Os hoffech ofyn am gopi mewn fformat arall neu am gynodeb o'r ddogfen hon mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod:

**Gwasanaethau Pobl Heddlu Gwent,
Llawr 2, Vantage Point, Ffordd Tŷ Coch, Cwmbrân, Torfaen, NP44 7HF.**

01633 642020 / 01633 645503 www.gwent.police.uk

Mae'n dda gennyf gyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf i gael ei gyhoeddi gan Heddlu Gwent. Mae hon yn ddogfen bwysig sy'n sefydlu cydraddoldeb ac amrywiaeth fel egwyddorion allweddol sy'n tanategu popeth a wnawn.

Mae'r ardal ddaearyddol y mae Heddlu Gwent yn ei gwasanaethu'n gartref i gymysgedd cymdeithasol-amrywiol o bobl â gwahanol ffyddoedd, cefndiroedd ethnig a ffyrdd o fyw. Mae'r amrywiaeth gyfoethog hon yn ychwanegu dyfnder ac ehangder at ein cymunedau ac mae'n rhywbeth i'w ddathlu a'i feithrin.

Fel heddlu, rydym wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd diwethaf i gyflwyno gwasanaeth plismona sy'n canolbwyntio'n fwy ar ddinasyddion ac sy'n seiliedig ar Dimau Plismona Cymdogaeth sy'n atebol yn lleol. Mae hyn wedi ein helpu i ymgysylltu'n fwy effeithiol ag unigolion a chymunedau a thrwy wneud hynny, i'w deall hwy a'u hanghenion yn well. O ganlyniad, mae'r hyder sydd gan y cyhoedd ynom ni i'w hamddiffyn rhag niwed ac i fynd i'r afael â'r pethau sydd o'r pwys mwyaf iddynt wedi cynyddu'n sylweddol.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes ond mae'n cydnabod bod mwy o waith i'w wneud o hyd er mwyn i ni allu chwarae ein rhan o safbwynt creu cymdeithas deg a chyfiawn lle gall pawb fyw eu bywydau gan fod yn rhydd rhag ofn troseddau ac anhrefn.

Er bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn canolbwyntio ar y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd, mae a wnelo hefyd â'r ffordd yr ydym yn recriwtio, hyfforddi, rheoli a datblygu'r bobl sy'n gweithio i ni. Mae hefyd yn bwysig ein bod, hyd y gallwn, yn sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu'n amlwg y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu fel bod pobl yn gallu bod yn hyderus ein bod yn deall eu hanghenion a'u disgwyliadau fel dinasyddion.

Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn ei ddatblygu gyda chymorth gweithredol ein cymunedau a'n partneriaid ac fe hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi gwneud cyfraniad am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

Mae gan bob un ohonom, ni waeth pa rôl yr ydym yn ei chyflawni yn y sefydliad, gyfrifoldeb personol i wneud i hyn weithio. Erfyniaf ar bob un ohonoch i gofleidio, nid yn unig gynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ond hefyd ysbryd yr hyn yr ydym yn gobeithio'i gyflawni o fewn Heddlu Gwent.

Carmel Napier
Prif Gwnstabl

Cyflwyniad

Mae Heddlu Gwent yn gwasanaethu ardal sy'n ymestyn dros 600 milltir sgwâr a ffiniau 5 awdurdod unedol, sef Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Ffiniau ardal yr heddlu yw'r Fenni yn y Gogledd, Casnewydd yn y De, Cas-gwent yn y Dwyrain a Chaerffili yn y Gorllewin. Mae ardal blismona Gwent yn gymysgedd o rannau gwledig a threfol, ac mae rhwydwaith y ffordd yn cario peth wmbredd o draffig trwy gyswilt yr M4 yn y Dwyrain, sydd bellach yn cynnwys yr Ail Bont Hafren.

Mae Heddlu Gwent wedi'i rannu'n Bum Maes Gwasanaeth. Mae pob maes gwasanaeth wedi bod yn rhan o bennu'r amcanion cydraddoldeb strategol a nodir yn y Cynllun.

- **Plismona Cymdogaeth a Phartneriaeth** – sy'n cynnwys plismona cymdogaeth, plismona ymateb ac ymchwilio i droseddau sy'n digwydd yn aml.
- **Ymchwilio i Droseddau** – sy'n cynnwys diogelu'r cyhoedd, troseddau difrifol a chyfundrefnol, cudd-wybodaeth a digwyddiadau mawr.
- **Cymorth Gweithredol** – sy'n cynnwys plismona arfog, hyfforddiant arfau tân, Ystafell Reoli'r Heddlu a dalfeydd
- **Datblygu Gwasanaethau** – sy'n cynnwys Newid Busnes, Gwella Gwasanaethau, adolygu perfformiad a diwygio'r heddlu.
- **Cymorth Busnes** – sy'n cynnwys TGCh, Gwasanaethau Pobl, Fflyd, Ystadau, Cyllid a gweinyddu.

Mae gan Heddlu Gwent weithlu sy'n cyflawni ystod o rolau amrywiol – Swyddogion Heddlu, Cwnstablaid Arbennig, Gwirfoddolwyr Cymunedol a Staff yr Heddlu (sy'n cyflawni ystod o rolau o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i Staff Trin Galwadau ac Ymchwilwyr Safle Troseddau.) Ceir crynodeb o'n proffil cyflogaeth yn:

<http://www.gwent.police.uk/informationpoint/equality-and-diversity/equality-information/employment-equality-data/>

3 Gwerthoedd Heddlu Gwent

Mae Heddlu Gwent yn bodoli er mwyn cynnal y gyfraith mewn modd teg a chadarn; atal troseddau; mynd ar drywydd y rheiny sy'n torri'r gyfraith a dod â hwy o flaen eu gwell; cadw Heddwch y Frenhines; helpu a thawelu meddwl y gymuned a chael ein gweld yn gwneud hyn ag urddas, synnwyr cyffredin a chrebwyll da.

Ni ellir ond gwireddu'r weledigaeth hon os oes gennym gyfres gref o werthoedd sy'n pennu disgwyliadau eglur ar gyfer ein cymunedau ynghylch y ffordd y mae Heddlu Gwent yn cyflenwi'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Y gwerthoedd yr ydym yn ymgynghoedd atynt yw:

Ymddiriedaeth

- gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar synnwyr cyffredin er lles y cyhoedd
- gwneud yr hyn yr ydym yn addo ei wneud ar yr amser yr ydym yn addo ei wneud
- bod yn gyson o ran ein dull ond trin pobl fel unigolion

Teg

- trin pobl eraill fel y byddem ni'n disgwyl cael ein trin
- dangos gofal a thosturi tuag at y rheiny sy'n gofyn am ein help
- bod yn onest a gweithredu ag uniondeb ym mhopeth a wnawn

Proffesiynol

- deall sut i wneud ein gwaith a'i wneud gystal ag y gallwn
- gwneud ein gorau i gael pethau'n iawn, y tro cyntaf bob amser
- ymfalchïo yn ein gwasanaeth, ein gwaith a'n hymddangosiad

Ymatebol

- canfod beth mae pobl yn ei ddymuno ac adlewyrchu hynny yn yr hyn a wnawn
- cymryd diddordeb gwirioneddol mewn pobl a'u problemau
- gweithredu'n gyflym i unioni pethau pan fyddwn yn eu cael yn anghywir

Mae gan Heddlu Gwent Gynllun Plismona dros dair blynedd sydd i'w weld yma ar ein gwefan ac sy'n egluro sut y bydd Awdurdod Heddlu Gwent yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl dros y pedair blynedd nesaf i ddarparu'r gwasanaeth plismona gorau posib ar gyfer pobl Gwent.

4 Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb

Ym mis Hydref 2010, fel rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb fe gyflwynwyd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Heddlu Gwent, wrth gyflawni ein swyddogaethau mewnol ac allanol i ymrhroi ystyriaeth priodol i'r angen i:

- Ddileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheiny nad ydynt yn rhannu nodwedd warchoddedig
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheiny nad ydynt yn rhannu nodwedd warchoddedig

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn berthnasol i bersonél yr Heddlu ac aelodau o'n

cymunedau sy'n rhannu 'Nodweddion Gwarchoddedig'. Mae 9 Nodwedd Warchoddedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb; Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd neu Gred, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol.

Er mwyn cynorthwyo cyrff cyhoeddus, mae 'Rheoliadau Penodol' i'w cael sy'n nodi mewn mwy o fanylder sut y gallwn weithio tuag at gyrraedd nodau'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol. Mae gwahanol Reoliadau Penodol ar gyfer Cymru a Lloegr, a chan fod Heddlu Gwent yn gweithio mewn maes sydd heb ei ddatganoli, mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i gydymffurfio â'r Rheoliadau ar gyfer Lloegr. Fodd bynnag, fel Heddlu yng Nghymru sy'n gweithio gyda sefydliadau partner mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, lle bynnag y bo'n bosib, byddwn yn ceisio ateb gofynion y Rheoliadau ar gyfer Cymru hefyd. I wneud hyn, bydd Heddlu Gwent:

- Yn cyhoeddi Gwybodaeth Cydraddoldeb flynyddol mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig ein cyflogaion a nodweddion gwarchoddedig y bobl y mae ein polisiau a'n harferion yn effeithio arnynt
- Mewn ymgynghoriad â'n staff a'n cymunedau, yn pennu Amcanion Cydraddoldeb
- Yn cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn mis Ebrill 2012 sy'n egluro sut y byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb
- Yn asesu effaith ein polisiau ac arferion arfaethedig gan ystyried ein Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol trwy barhau i ddefnyddio ein proses ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Heddlu Gwent

5

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod ymrwymiad ar gyrfn yn y sector cyhoeddus i drin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

Mae gan Heddlu Gwent Gynllun Iaith Gymraeg sy'n nodi ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys camau gweithredu sy'n nodi'n fanwl sut y byddwn yn gweithio tuag at brif-ffrydio'r Gymraeg yn ein busnes o ddydd i ddydd.

Cydnabyddir fod yr iaith Gymraeg yn elfen allweddol o'r agenda cydraddoldeb, ond oherwydd y gofyniad cyfreithiol i baratoi Cynllun Iaith Gymraeg ar wahân, bydd y ddogfen hon yn cael ei chadw fel dogfen ar ei phen ei hun. Byddwn yn craffu ar y Cynllun Iaith Gymraeg i sicrhau bod deilliannau'n cael eu cyflawni.

Gwybodaeth Cydraddoldeb

6

Wrth roi sylw dyledus i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, mae hefyd yn ofynnol i Heddlu Gwent adnabod, casglu a chyhoeddi Gwybodaeth Cydraddoldeb am Nodweddion Gwarchoddedig pobl y mae ein polisiau a'n harferion yn effeithio arnynt.

Mae Prif Gwnstabl Heddlu Gwent a Grŵp Amrywiaeth Cymru-gyfan wedi cytuno bod yr wybodaeth ganlynol a ddelir gan yr heddlu'n berthnasol ac y dylai gael ei chyhoeddi i gydymffurfio â'r Ddyletswydd:

- gwybodaeth am droseddau a digwyddiadau casineb y cawsom ein hysbysu yn eu cylch;
- gwybodaeth am weithgareddau stopio a chwilio;
- gwybodaeth am droseddau treisgar a gyflawnwyd yn erbyn menywod;

- gwybodaeth am fodlonrwydd defnyddwyr;
- gwybodaeth am gwynion;
- gwybodaeth ystadegol am y swyddogion a'r staff a gyflogir gennym.

Bydd yr wybodaeth berthnasol a gasglwyd ac a gyhoeddwyd yn cael ei hadolygu'n flynyddol a byddwn yn adrodd arni wrth y Bwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Defnyddio ein Gwybodaeth Cydraddoldeb

Bydd casglu a dadansoddi gwybodaeth cydraddoldeb yn cynorthwyo Heddlu Gwent i ateb gofynion y dyletswyddau cyffredinol a phenodol, i gynnal asesiadau effeithiol o'r effaith ar gydraddoldeb, i adnabod meysydd lle ceir anghymesuredd a bylchau posib o ran cydraddoldeb, a bydd yn helpu i sicrhau perthnasedd amcanion yn y presennol a'r dyfodol. Mae ein gwybodaeth cydraddoldeb eisoes wedi bod o gymorth i bennu ein Hamcanion Cydraddoldeb newydd.

Cyhoeddi Gwybodaeth Cydraddoldeb

Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth cydraddoldeb berthnasol a ddelir gennym, ac yr ystyrir ei bod yn briodol ei chyhoeddi, yn flynyddol ar wefan Heddlu Gwent. Gallwch ganfod gwybodaeth cydraddoldeb gyffredol yn:

<http://www.gwent.police.uk/informationpoint/equality-and-diversity/equality-information/>

Mae gwybodaeth cydraddoldeb hefyd wedi'i bwriadu i roi gwybod i gymunedau am ein perfformiad, gweithgareddau plismona sydd â'r potensial i effeithio ar bobl â Nodweddion Gwarchoddedig arbennig a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

7 Asesu'r Effaith

Er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau Cydraddoldeb mae hefyd yn hollbwysig bod y sefydliad yn asesu ac yn ystyried yr effaith ar gydraddoldeb o ganlyniad i benderfyniadau y mae'n eu gwneud, a pholisïau ac arferion y mae'n eu gweithredu. Mae cyfraith achos yn tanlinellu pwysigrwydd Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn effeithiol ac mae Heddlu Gwent wedi datblygu erfyn Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a ddefnyddir ar draws pob maes yn ein busnes i asesu a dangos sut y bydd polisi neu weithgaredd yn rhoi cymorth i Heddlu Gwent ateb gofynion y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, yn ogystal ag adnabod a cheisio mynd i'r afael ag unrhyw effaith negyddol bosib ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig.

Bydd pob Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys nifer o argymhellion lle canfyddir unrhyw effaith anghymesur negyddol. Perchennog y maes gwasanaeth sy'n gyfrifol am weithredu unrhyw argymhellion, a lle adnabyddir unrhyw newidiadau neu effaith sylweddol, bydd y broses hon yn cael ei goruchwyllo gan Fwrdd Amrywiaeth yr Heddlu.

Byddwn yn cyhoeddi Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd wedi cael eu cyflawni mewn perthynas â'n polisïau a'n gweithdrefnau, lle maent yn cael effaith sylweddol ar ein gallu i ateb gofynion y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol.

Gellir gweld y rhain ar ein gwefan:

<http://www.gwent.police.uk/foi/publishscheme/policiesprocedures/>

8 Amcanion Cydraddoldeb

Ymgysylltu ac Ymgynghori

Mae'n ofynnol i Heddlu Gwent sefydlu o leiaf un Amcan Cydraddoldeb mewn ymgynghoriad â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig i fynd i'r afael â meysydd lle ceir anghydraddoldeb. Rydym yn defnyddio ymchwil genedlaethol, gwybodaeth am faterion lleol ac ymarferion ymgynghori â'r cyhoedd fel sail i ddatblygu ein holl Amcanion Cydraddoldeb.

Adnabod Meysydd Allweddol

O fis Rhagfyr 2011 tan fis Ionawr 2012, fe ymgynghorodd Heddlu Gwent yn fewnol ac yn allanol â staff a chymunedau er mwyn sicrhau bod ein hamcanion cydraddoldeb yn cael eu goleuo gan bobl â nodweddion gwarchoddedig yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y gwaith yr ydym yn ei wneud.

Trwy gydosod data cenedlaethol a lleol fe adnabuom feysydd gwaith allweddol oedd â'r potensial i effeithio ar bobl sy'n rhannu gwahanol nodweddion gwarchoddedig.

Yn allanol, roedd y rhain fel a ganlyn:

- Troseddau casineb
- Stopio a chwilio
- Cam-drin domestig
- Trais sy'n seiliedig ar anrhydedd
- Prevent
- Troseddau sy'n effeithio ar bobl hŷn ac ifancach
- Ymateb i bobl ag afiechyd meddwl ac anableddau dysgu
- Dalfeydd
- Rhwystrau i fynediad a thriniaeth annheg
- Ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Yn fewnol, roedd y rhain fel a ganlyn:

- Recriwtio, dethol a chamu ymlaen
- Dysgu, hyfforddiant a datblygiad
- Meysydd lle mae grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (gan gynnwys camau gweithredu cadarnhaol)
- Gweithio hyblyg
- Anabledd
- Mamolaeth
- Iwniform ac offer
- Ystadau a chyfleusterau
- Erledigaeth, ymddygiad digroeso ac aflonyddu
- Polisiâu a gweithdrefnau sy'n effeithio ar staff sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig

Ymgysylltu ac Ymgynghori Allanol

Yn allanol, datblygwyd holiadur ar-lein a darparwyd mynediad ato trwy wefan allanol Heddlu Gwent. Cafodd 'blychau postio' holiaduron eu gosod hefyd mewn lleoliadau cymunedol gan gynnwys Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru (SEWREC), Mosgiau Lleol a grwpiau cymorth lleol ar gyfer Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Cafodd yr holiadur ar-lein ei farchnata trwy OWL, safleoedd Facebook a Twitter Heddlu Gwent, a thrwy ein rhwydweithiau o gysylltiadau a phartneriaid cymunedol. Fe gynhalion ni hefyd nifer o grwpiau ffocws i sicrhau bod pobl nad oeddent o bosib yn gallu cymryd rhan ar-lein yn gallu dweud eu dweud. Fe gynhalion ni grwpiau ffocws gyda:

- Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Heddlu Gwent
- Tim Gweithredu Cymunedol Heddlu Gwent
- Bwrdd Safbwyntiau Ieuencid Heddlu Gwent
- Fforwm preswylwyr Cartrefi Dinas Casnewydd
- Fforwm Pobl Hŷn Gwent
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Staff Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru
- Gweithwyr Datblygu Cymunedol Lleol
- Mind Torfaen
- Grŵp Menywod Asiaidd Ashiana

Fe gynhalion ni arolwg wedi'i dargedu hefyd gyda'n cymunedau Sipsiwn a Theithwyr lleol; fe wnaed hyn ar ein rhan gan Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr Torfaen. Cymerodd dros 100 o bobl ran yn ein grwpiau ffocws, ac fe gwblhaodd tua 180 o bobl ein harolwg.

Ymgysylltu ac Ymgynghori Mewnol

Yn fewnol, datblygwyd holiadur ar-lein dienw ac roedd yn bosib cael mynediad ato trwy wefan fewnol Heddlu Gwent.

Rhodddwyd cyfle i staff hefyd ddod i grŵp ffocws er mwyn trafod eu materion cydraddoldeb mewn mwy o fanylder. Cynhaliwyd grwpiau ffocws hefyd gyda Rhwydweithiau Cymorth a Chymdeithasau Staff. Cafodd data mewn perthynas â'r adran ar gydraddoldeb yn yr arolwg staff ei ystyried hefyd fel rhan o'r broses ymgynghori. Cafodd casgliadau o Werthusiad Annibynnol gan Brifysgol Morgannwg o Ganfyddiadau Swyddogion Benywaidd am Ymgeisio am Ddyrchafiad a Swyddi mewn Adrannau Arbenigol yn Heddlu Gwent ynghyd â'r Arolwg o Weithio Hyblyg, a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith Cymorth Gweithio Hyblyg, eu hystyried hefyd.

Ceir adroddiad llawn ar ein hymgynghoriad a'r canfyddiadau ar ein gwefan.

Ein Hamcanion Cydraddoldeb

Nod trosfwaol ein Hamcanion Cydraddoldeb yw sicrhau ein bod yn sefydlu egwyddorion cydraddoldeb ym mhob agwedd ar ein busnes o ddydd i ddydd. Mae pob amcan hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Plismona, ac maent yn canolbwyntio ar weithgareddau mewn tri maes:

Cyflawni Gweithredol, Pobl a Diwylliant a Phrosesau Cyfundrefnol.

- Cydraddoldeb yn ein swyddogaeth cyflawni gweithredol (gwasanaethau i gwsmeriaid) – Mae a wnelo hyn â chyflenwi gwasanaethau y mae'n hawdd cael mynediad atynt ac sy'n ymateb i ac yn diwallu anghenion yr holl gymunedau.
- Cydraddoldeb yn ein pobl a'n diwylliant (arferion gweithio) – Mae a wnelo hyn â meithrin amgylchedd gwaith sy'n cynnwys pawb ac sy'n annog holl bersonél Heddlu Gwent i ddatblygu a chamu ymlaen.
- Cydraddoldeb mewn prosesau cyfundrefnol (cyflogaeth) – mae a wnelo hyn â gwneud cydraddoldeb yn rhan o brosesau'r sefydliad a sut y mae'r gwasanaeth yn rheoli ei berfformiad.

Amcan 1: Cam-drin Domestig a Thrais sy'n Seiliedig ar Anrhydedd

Sicrhau bod ymateb Heddlu Gwent i gam-drin domestig yn briodol ac yn hygyrch i'r holl gymunedau, gan gynnwys y rheiny sydd o bosib yn wynebu rhwystrau arbennig i hysbysu ynghylch digwyddiadau cam-drin domestig, a sefydlu darlun cywir o nifer a natur y digwyddiadau Trais sy'n Seiliedig ar Anrhydedd sy'n digwydd yn ardal Heddlu Gwent.

(Pobl a Diwylliant / Cyflawni Gweithredol / Prosesau Cyfundrefnol).

Amcan 2: Troseddau Casineb

Sicrhau bod dioddefwyr pob math o ddigwyddiadau casineb a throsteddau'n derbyn ymateb priodol gan Heddlu Gwent sy'n adnabod natur agored i niwed ar adeg gynnar, yn rhoi'r cymorth gorau iddynt, ac yn cynyddu'r gobaith o erlyniad llwyddiannus.

(Pobl a Diwylliant / Cyflawni Gweithredol / Prosesau Cyfundrefnol).

Amcan 3: Prevent

Gweithio gyda'r holl gymunedau i leihau i'r eithaf unrhyw effaith negyddol y gall gweithrediadau a gweithgarwch gwrthderfysgaeth ei chael arnynt, a gwella hyder ymhlith cymunedau i hysbysu ynghylch digwyddiadau sy'n achos pryder.

(Cyflenwi Gweithredol / Prosesau Cyfundrefnol).

Amcan 4: Dalfeydd

Adnabod anghenion penodol pobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn yn y ddalfa'n briodol ac yn hyblyg .
(Pobl a Diwylliant / Cyflawni Gweithredol / Prosesau Cyfundrefnol).

Amcan 5: Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Cynyddu ymddiriedaeth a hyder Sipsiwn a Theithwyr yn ein gwasanaethau plismona a hybu perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr heddlu, Sipsiwn a Theithwyr, a chymunedau sefydlog.
(Pobl a Diwylliant / Cyflawni Gweithredol / Prosesau Cyfundrefnol).

Amcan 6: Stopio a Chwilio

Sicrhau bod y gweithgareddau stopio a chwilio'n cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n gyfreithlon, yn gymesur, yn peidio â gwahaniaethu, ac yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol o fewn a rhwng cymunedau a'r heddlu.
(Pobl a Diwylliant / Cyflawni Gweithredol / Prosesau Cyfundrefnol).

Amcan 7: Mynediad ac Ymgysylltu

Lleihau'r rhwystrau a adnabuwyd fel rhai y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio mynediad at wasanaethau heddlu trwy gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
(Pobl a Diwylliant / Cyflawni Gweithredol).

Amcan 8: Recriwtio, Dethol, Camu Ymlaen a Chadw

Creu amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol sy'n annog a rhoi cymorth i bob aelod o staff ddatblygu a chamu ymlaen. Byddwn yn annog mentrau arloesol i recriwtio personél o grwpiau amrywiol, rhoi cymorth iddynt, rhoi cyfleoedd iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa a'u cadw.
(Pobl a Diwylliant).

Amcan 9: Dysgu, Hyfforddi a Datblygu

Hyfforddi a datblygu ein gweithlu i gydnabod gwerth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i blismona.
(Pobl a Diwylliant / Cyflawni Gweithredol).

Amcan 10: Anabledd

Cynyddu ymddiriedaeth a hyder pobl anabl yn y gwasanaethau a ddarperir gan Heddlu Gwent a chadw aelodau anabl o staff trwy eu galluogi i gyfranogi a chyfrannu'n llawn trwy fynd i'r afael â rhwystrau yn y gweithle lle y bo'n bosib.
(Pobl a Diwylliant / Cyflawni Gweithredol / Prosesau Cyfundrefnol).

Amcan 11: Darpariaethau ar gyfer Rhieni

Sicrhau bod gan swyddogion a staff fynediad at wybodaeth am ddarpariaethau a phrosesau yn y gweithle gan gynnwys beichiogrwydd, absenoldeb mamolaeth a thadolaeth, a dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth. Sicrhau nad yw swyddogion a staff yn cael eu rhoi dan anfantaes am eu bod wedi cymryd cyfnod o absenoldeb mewn perthynas â dyletswyddau fel rhiant.
(Pobl a Diwylliant).

Amcan 12: Sefydlu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth trwy ein polisïau, ein gweithdrefnau a'n prosesau.

Datblygu ein diwylliant i sefydlu egwyddorion cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn, gan gydnabod a pharchu gwerthoedd unigolion a gwahaniaethau pobl.
(Pobl a Diwylliant / Cyflawni Gweithredol).

9 Adolygu ac Adrodd

Mae pob un o'n meysydd gwasanaeth yn rhan o weithredu ein Hamcanion Cydraddoldeb, felly mae cynllun gweithredu manwl wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod pob maes gwasanaeth yn y sefydliad yn cyflawni'i gyfrifoldebau dan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn. Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 ac mae'n rhoi mwy o wybodaeth am weithgareddau penodol y byddwn yn eu cyflawni er mwyn mynd ar drywydd ein hamcanion.

Mae arweinyddiaeth, rheolaeth a pherchenogaeth yn allweddol i sicrhau bod ein hamcanion yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Caiff y cyfrifoldeb am y portffolio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei ysgwyddo gan ein Dirprwy Brif Gwnstabl sy'n cadeirio Bwrdd Amrywiaeth Heddlu Gwent. Bydd y Bwrdd Amrywiaeth yn goruchwyllo'r broses o weithredu ein Hamcanion Cydraddoldeb, a bydd yn dwyn y rheiny sy'n gyfrifol am gamau gweithredu i gyfrif. Bydd graddfeydd amser eglur ar gyfer cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb a'r cynllun gweithredu ategol, a bydd y Bwrdd Amrywiaeth hefyd yn sicrhau y cydymffurfir â'r graddfeydd amser hyn.

Bob blwyddyn, bydd Heddlu Gwent hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol, a fydd yn cynnwys:

- gwybodaeth cydraddoldeb a data cyflogaeth perthnasol wedi'u diweddarau
- sut y mae Heddlu Gwent wedi defnyddio'r wybodaeth hon wrth gyflawni ein Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol
- ein cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb
- datblygiadau ar gyfer amcanion cydraddoldeb yn y dyfodol

10 Cyfrifoldebau

Bydd Prif Swyddogion ac Arweinwyr Meysydd Gwasanaeth/Penaethiaid Adrannau yn Heddlu Gwent yn:

- Gwneud y Ddyletswydd Cydraddoldeb yn rhan o gynllunio strategol.
- Hybu'r Ddyletswydd Cydraddoldeb mewn areithiau, datganiadau ac ymddangosiadau cyhoeddus.
- Rhoi proffil uchel a blaenoriaeth uchel i Gydraddoldeb – er enghraifft, sicrhau bod holl bersonél a defnyddwyr gwasanaethau Heddlu Gwent yn gwybod am y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Prif-frydio cydraddoldeb fel rhan o swyddogaethau craidd o ddydd i ddydd.
- Sicrhau bod gan uwch aelod o fewn y Gweithlu gyfrifoldeb (a'r grym) i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.
- Sicrhau bod personél Heddlu Gwent yn deall y Ddyletswydd Cydraddoldeb, yr hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud dan y Ddyletswydd a'u hatebolrwydd a'u cyfrifoldeb unigol.
- Sicrhau bod systemau ar waith i fonitro effaith polisiau ac arferion – ac adrodd ar unrhyw dueddiadau neu bryderon wrth iddynt ddod i'r fei.
- Sicrhau bod cyfrifoldebau a champau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael eu monitro ac y bwirir ymlaen â hwy.

Mae Rheolwyr Llinell a Goruchwylwyr yn gyfrifol am sicrhau:

- eu bod yn deall y gyfraith a'i gofynion.
- eu bod yn gwybod ble i gael cyngor ynghylch y Dyletswyddau Cydraddoldeb.
- bod eu hunedau, eu timau neu eu hisadrannau wedi cael gwybodaeth a hyfforddiant fel eu bod yn gallu ateb gofynion cyfreithiol.
- bod systemau ar waith i fonitro effaith polisiau ac arferion ar gydraddoldeb a'u bod yn adrodd ar unrhyw dueddiadau neu bryderon wrth iddynt ddod i'r fei.
- eu bod yn defnyddio'r broses asesu'r effaith ar gydraddoldeb i wella gwaith eu hisadran a hybu hyder yn Heddlu Gwent.

Mae holl bersonél Heddlu Gwent yn gyfrifol am y canlynol:

- Sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu, nad ydynt yn goddef aflonyddu a'u bod yn hybu cydraddoldeb yn eu gwaith o ddydd i ddydd.
- Cymryd camau gweithredu os ydynt yn gweld gwahaniaethu neu aflonyddu trwy ddefnyddio gweithdrefnau sefydledig i hysbysu ynghylch gwahaniaethu a bod yn barod i herio ymddygiad amhriodol.
- Cydnabod nad rhywbeth i rywun arall yw hybu cydraddoldeb – ond ei fod yn rhywbeth i bawb.

Casgliad

Mae cyflwyno'r Ddeddf Cydraddoldeb newydd a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi cyflwyno cyfle cyffrous i Heddlu Gwent adeiladu ar gynnydd sylweddol a wnaed yn barod wrth weithio tuag at gydraddoldeb, fel cyflogwr ac fel darparwr gwasanaethau. Mae hefyd wedi rhoi cyfle amserol i ni ymgysylltu â'r cymunedau hynny y mae ein gweithgareddau'n effeithio arnynt, a sicrhau bod y blaenoriaethau yr ydym ni'n eu pennu'n adlewyrchu eu pryderon. Rydym yn gobeithio y bydd y Cynllun Cydraddoldeb hwn a'r amcanion sy'n ei danategu o gymorth i gynnal cymunedau a gweithleoedd sy'n hybu cysylltiadau cadarnhaol, yn cynnig cyfle cyfartal ac yn rhydd rhag gwahaniaethu, aflonyddu a rhagfarn.

Cynllun Gweithredu

Amcan 1: Cam-drin Domestig a Thrais sy'n Seiliedig ar Anrhydedd

Sicrhau bod ymateb Heddlu Gwent i gam-drin domestig yn briodol ac yn hygyrch i'r holl gymunedau, gan gynnwys y rheiny sydd o bosib yn wynebu rhwystrau arbennig i hysbysu ynghylch digwyddiadau cam-drin domestig, a sefydlu darlun cywir o nifer a natur y digwyddiadau Trais ar sail Anrhydedd sy'n digwydd yn ardal Heddlu Gwent. (Pobl a Diwylliant, Cyflawni Gweithredol, Prosesau Cyfundrefnol).

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
----------------	-----------	------------	-------------------

Cyflawni'r canlynol trwy
Fframwaith Plismona Cam-
drin Domestig Heddlu Gwent:

1.	Monitro nodweddion gwarchoddedig dioddefwyr cam-drin domestig ar yr adeg gynharaf bosib.	Adnabod risg yn well, rhoi cymorth priodol ac adnabod tueddiadau hysbysu / pryderon.	Diogelu'r Cyhoedd	Mawrth 2013
2.	Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth penodol i Swyddogion Trais Domestig mewn perthynas â gweithio gyda chymunedau amrywiol, a rhoi hyfforddiant Trais Domestig penodol i Swyddogion Cyswllt Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yr Heddlu.	Cynyddu arbenigedd o fewn y sefydliad, gan roi lefel o gymorth wedi'i theilwra i ddioddefwyr.	Diogelu'r Cyhoedd, Cydluniant Cymunedol	Mawrth 2013
3.	Rhoi gwybodaeth hygyrch i gymunedau amrywiol a sefydliadau trydydd parti perthnasol ynghylch cam-drin domestig, gan gynnwys ystod o opsiynau hysbysu.	Mwy o ymwybyddiaeth a chyfleoedd hysbysu ar gyfer grwpiau yr ystyrir yn draddodiadol eu bod yn 'anodd i'w cyrraedd'.	Diogelu'r Cyhoedd, Cydluniant Cymunedol	Mawrth 2013
	Rhoi gwybodaeth i'r holl swyddogion a staff ynghylch cymunedau a allai fod yn wynebu rhwystrau arbennig i hysbysu, neu y gall fod arnynt angen cymorth wedi'i deilwra (er enghraifft, dioddefwyr gwrywaidd, pobl anabl, menywod o grwpiau Sipsiwn a Theithwyr, pobl mewn perthynas â rhywun o'r un rhyw).	Rhoi lefel well o gymorth i ddioddefwyr ac adnabod unrhyw ffactorau risg ychwanegol yn gynnar.	Diogelu'r Cyhoedd, Cydluniant Cymunedol	Mawrth 2013
	Datblygu a darparu pecyn hyfforddiant/ymwybyddiaeth ar gyfer cymunedau mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol, gan	Ymwybyddiaeth gynyddol gan gymunedau o arferion trais sy'n seiliedig ar anrhydedd, y cymorth sydd ar gael a llwybrau hysbysu .	Diogelu'r Cyhoedd, Cydluniant Cymunedol	Mawrth 2016

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
ganolbwyntio ar y rheiny a adnabuwyd fel pobl a allai fod yn agored i ddylanwad neu effaith arferion sy'n seiliedig ar anrhydedd. Datblygu a darparu hyfforddiant a gwybodaeth mewn perthynas â thrais sy'n seiliedig ar anrhydedd ar gyfer swyddogion rheng-flaen.	Adnabod ac ymyrryd yn gynnar a darparu ymateb priodol sy'n ystyriol o wahaniaethau diwylliannol.	Diogelu'r Cyhoedd, Cydluniant Cymunedol	Mawrth 2013
Codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion a cholegau o drais sy'n seiliedig ar anrhydedd a'r arwyddion rhybuddiol y gall myfyrwyr eraill neu staff eu hadnabod.	Ymwybyddiaeth gynyddol o arferion trais sy'n seiliedig ar anrhydedd gan ysgolion a phobl ifanc, ac adnabod risg yn gynnar.	Diogelu'r Cyhoedd, Cydluniant Cymunedol	Mawrth 2016

Amcan 2: Troseddau Casineb

Sicrhau bod dioddefwyr pob math o ddigwyddiadau casineb a throeddau'n derbyn ymateb priodol gan Heddlu Gwent sy'n adnabod natur agored i niwed ar adeg gynnar, yn rhoi'r cymorth gorau iddynt, ac yn cynyddu'r gobaith o erlyniad llwyddiannus. (Pobl a Diwylliant, Cyflawni Gweithredol, Prosesau Cyfundrefnol).

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
Cyflawni'r canlynol trwy Gynllun Gweithredu Troseddau Casineb Heddlu Gwent:			
1. Sefydlu system asesu risg a MARAC briodol sy'n gyson ar draws Unedau Plismona Lleol.	Darparu ymyrraeth amlasiantaeth briodol ar y cam cynharaf posib ar gyfer dioddefwyr agored i niwed pob math o drosedd casineb.	Arweinydd ar Droseddau Casineb	Mawrth 2013
2. Mynd ati'n rheolaidd i adolygu lefelau bodlonrwydd dioddefwyr troseddau casineb a cheisio gwella hyn lle y bo angen.	Bodlonrwydd cynyddol ymhlith dioddefwyr, ac adnabod meysydd i'w gwella.	Prif Gwnstabl Cynorthwyol	Mawrth 2013
3. Mynd ati'n rheolaidd i adolygu data ar erlyniadau am droseddau casineb a rhoi cyhoeddusrwydd i achosion llwyddiannus lle bynnag y bo'n bosib.	Ymwybyddiaeth gynyddol yn y gymuned o droseddau casineb a hyder y bydd y Gyfundrefn Cyfiawnder Troseddol yn ymdrin â hwy'n effeithiol.		Mawrth 2013
4. Ymgysylltu â chymunedau lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod diffyg ymddiriedaeth neu	Hyder a lefelau hysbysu cynyddol	Arweinydd ar Droseddau Casineb	Mawrth 2013

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
hysbysu annigonol (er enghraifft, cymunedau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol).			
5. Codi ymwybyddiaeth swyddogion a staff mewn perthynas ag adnabod digwyddiadau casineb, ymchwilio'n llwyddiannus a rhoi cymorth effeithiol/ priodol i ddioddefwyr.	Trefn well ar gyfer adnabod digwyddiadau casineb yn gynnar a chymorth effeithiol a phriodol i ddioddefwyr.	Arweinydd ar Droseddau Casineb	Mawrth 2013

Amcan 3: Prevent

Gweithio gyda'r holl gymunedau i leihau i'r eithaf unrhyw effaith negyddol y gall gweithrediadau a gweithgarwch gwrthderfysgaeth ei chael arnynt, a gwella hyder ymhlith cymunedau i hysbysu ynghylch digwyddiadau sy'n achos pryder. (Cyflenwi Gweithredol, Prosesau Cyfundrefnol).

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
----------------	-----------	------------	-------------------

Cyflawni'r canlynol trwy Gynllun Cyflawni Prevent Heddlu Gwent:

1. Ymgysylltu ymhellach â chymunedau i ganfod yr effeithiau lleol y mae gweithgareddau Prevent wedi'u cael yng Ngwent (Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb).	Adnabod unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i wneud iawn am unrhyw effaith negyddol neu densiwn cymunedol sy'n deillio o weithgareddau Prevent cyfredol.	Arweinydd Prevent	Mawrth 2013
2. To engage further with young Asian communities and Asian women, establishing regular feedback mechanisms for areas of crime and disorder that are of concern.	Mwy o ymddiriedaeth a hyder mewn gwasanaethau plismona.	Arweinydd Prevent	Mawrth 2013
3. Rhoi gwybodaeth hygyrch i gymunedau am Prevent, ei bwrpas a gweithgareddau'r Heddlu.	Herio unrhyw stereoteipiau neu ganfyddiadau negyddol yn y gymuned mewn perthynas ag agenda Prevent a gweithgarwch yr heddlu.	Arweinydd Prevent	Mawrth 2013

Amcan 4: Custody

Adnabod anghenion penodol pobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn yn y ddalfa'n briodol ac yn hyblyg. (Pobl a Diwylliant, Cyflawni Gweithredol, Prosesau Cyfundrefnol). Caiff camau gweithredu eu croesgyfeirio â meini prawf a bennwyd gan HMIC yn ei dogfen 'Disgwyliadau ar gyfer Dalfeydd yr Heddlu', 2012.

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
Gweithio gyda chymunedau i godi ymwybyddiaeth swyddogion heddlu a staff sy'n gweithio mewn dalfeydd o anghenion pobl o gefndiroedd amrywiol (Adran 2 Disgwyliadau: Parch, 2).	Mwy o hyder mewn cymunedau a gwell ymwybyddiaeth gan swyddogion a staff sy'n gweithio gyda grwpiau amrywiol mewn dalfeydd.	Prif Arolygydd Dalfeydd	Mawrth 2013
Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael mewn dalfeydd am hawliau, hawlogaethau a thriniaeth mewn ystod o fformatau hygyrch ac ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg a'i gwella lle y bo angen (Adran 2 Triniaeth ac Amodau: Arsylwi, 2) (Adran 3 Hawliau Unigol: Disgwyliadau, 12) (Adran 3 Hawliau Unigol: Disgwyliadau, 16).	Aelodau o'r cyhoedd ag anawsterau cyfathrebu neu ofynion o ran iaith yn cael gwybodaeth dda am eu hawliau.	Prif Arolygydd Dalfeydd	Mawrth 2013
Adolygu a gwella'r dull o fonitro nodweddion gwarchodedig yn y system dalfeydd lle y bo angen.	Darparu gwasanaeth sy'n addas ar gyfer y diben ac yn cymryd anghenion unigol i ystyriaeth.	Prif Arolygydd Dalfeydd	Medi 2012

Amcan 5: Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Cynyddu ymddiriedaeth a hyder Sipsiwn a Theithwyr yn ein gwasanaethau plismona a hybu perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr heddlu, Sipsiwn a Theithwyr, a chymunedau sefydlog. (Pobl a Diwylliant, Cyflawni Gweithredol, Prosesau Cyfundrefnol).

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
Datblygu Strategaeth Sipsiwn/Teithwyr briodol, gan ystyried pwyntiau allweddol a godwyd trwy waith ymgynghori ynghylch cydraddoldeb: - Ymgysylltu - Hyfforddiant - Cyfathrebu - Cysylltiadau cymunedol - Mynediad at wasanaethau - Ymateb yr heddlu	Darparu gwasanaethau plismona sy'n hygyrch i, ac yn ymwybodol o anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.	Pennaeth Diogelwch Cymunedol	Mawrth 2014

Amcan 6: Stopio a Chwilio

Sicrhau bod y gweithgareddau stopio a chwilio'n cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n gyfreithlon, yn gymesur, yn peidio â gwahaniaethu, ac yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol o fewn a rhwng cymunedau a'r heddlu. (Pobl a Diwylliant, Cyflawni Gweithredol, Prosesau Cyfundrefnol).

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
Cyflawni'r 6 maes allweddol canlynol trwy Gynllun Gwella Stopio a Chwilio'r Heddlu - Polisi - Hyfforddiant / Ymwybyddiaeth - Arweinyddiaeth a Llywodraethu - Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Systemau a Phrosesau - Gweithio sy'n Seiliedig ar Gudd-wybodaeth	Dull cadarn o ymdrin â chyfarfyddiadau stopio a chwilio sy'n dryloyw, yn atebol ac y craffir arno. Cymunedau a chanddynt wybodaeth well am, a mwy o ymddiriedaeth a hyder yn nefnydd yr heddlu o bwerau stopio a chwilio.	Prif Gwnstabl Cynorthwyol / Dirprwy Brif Gwnstabl	Rhagfyr 2012

Amcan 7: Mynediad ac Ymgysylltu

Lleihau'r rhwystrau a adnabuwyd fel rhai y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio mynediad at wasanaethau heddlu trwy gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. (Pobl a Diwylliant, Cyflawni Gweithredol).

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
Cyflawni'r canlynol trwy Strategaeth Ymgysylltu Heddlu Gwent:			
1. Sicrhau bod pobl ifanc yn ymwneud yn effeithiol â Heddlu Gwent ac yn gallu cyfrannu at lunio gwasanaethau'r heddlu, trwy gyfleoedd priodol, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau trydydd parti.	Darparu gwasanaethau plismona sy'n ystyriol o anghenion a disgwyliadau pobl ifancach.	Arweinydd Ymgysylltu	Mawrth 2014
2. Sicrhau bod pobl hŷn yn ymwneud yn effeithiol â'u timau plismona cymdogaeth lleol a'u bod yn derbyn gwybodaeth briodol am blismona a diogelwch cymunedol.	Gwell adnabyddiaeth o risgiau a natur agored i niwed, a mwy o ymwybyddiaeth gan y gymuned o faterion diogelwch personol.	Arweinydd Ymgysylltu	Mawrth 2014

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
3. Darparu cyfleoedd i bobl ifancach a hŷn gymryd rhan mewn dialog ynghylch materion sydd bwysicaf i'r ddau grŵp oedran (er enghraifft, ymddygiad gwrthgymdeithasol).	Llai o densiwn cymunedol rhwng grwpiau oedran, a llai o ofn troseddau ymhlith pobl hŷn.	Arweinydd Ymgysylltu	Mawrth 2014
Gweithio gyda Phobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ifancach i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â chamfanteisio rhywiol a phuteindra, a sicrhau bod swyddogion perthnasol yn cael eu haddysgu ynghylch pryderon sy'n berthnasol yn benodol i Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn y maes yma.	Gwell ymwybyddiaeth gan swyddogion a chymunedau, hysbysu cynyddol ac adnabod risg yn gynnar.	Cydlyniant Cymunedol / Rhwydwaith Cymorth Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol	Mawrth 2014
Adolygu'r ystod o wasanaethau a'u hygyrchedd, sydd ar gael i bobl anabl neu bobl ag anawsterau cyfathrebu mewn sefyllfaoedd o argyfwng a sefyllfaoedd nad ydynt yn argyfwng.	Gwell mynediad at, a hyder mewn, gwasanaethau plismona i bobl anabl.	Pennaeth Cymorth Gweithrediadau / Datblygu Gwasanaethau	Mawrth 2013

Amcan 8: Recriwtio, Dethol, Camu Ymlaen a Chadw

Creu amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol sy'n annog a rhoi cymorth i bob aelod o staff ddatblygu a chamu ymlaen. Byddwn yn annog mentrau arloesol i recriwtio personél o grwpiau amrywiol, rhoi cymorth iddynt, rhoi cyfleoedd iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa a'u cadw. (Pobl a Diwylliant).

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
Adnabod meysydd allweddol lle mae angen casglu data ar gyflogaeth. Datblygu dulliau effeithiol ar gyfer casglu data gan gynnwys nodweddion gwarchoddedig er mwyn cael gwell dealltwriaeth am, a mynd i'r afael yn well â thueddiadau/meysydd lle ceir anghymesuredd trwy gydosod a monitro data ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig.	Dull cyson, cywir a chadarn o gydosod a chofnodi gwybodaeth am gyflogeion o ran data Cydraddoldeb ar sail nodweddion gwarchoddedig. Cynhyrchu adroddiadau ar gydraddoldebau sy'n seiliedig ar gasglu data cyfoes, i'w cyhoeddi a'u defnyddio yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb.	Rheolwr Adnoddau Dynol	Cynnydd blynyddol hyd at fis Mawrth 2016

Cam Gweithredu	Deiliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
Cymryd camau priodol i fynd i'r afael â meysydd lle ceir diffyg cynrychiolaeth ddigonol neu anghymesuredd ar gyfer nodweddion gwarchoddedig, ym meysydd cyflogaeth/ recriwtio/dyrchafiad/ hyfforddiant/datblygu/ gweithio hyblyg e.e. sesiynau ymwybyddiaeth recriwtio, defnyddio rhwydweithiau.	Mae proffil amrywiaeth y gweithlu'n gytbwys ar draws rolau/rhengoedd, yn enwedig rolau arbenigol.	Rheolwr Adnoddau Dynol / Rheolwr Datblygiad Proffesiynol	Cynnydd blynyddol hyd at fis Mawrth 2016
Adolygu'r broses o ddethol a phenodi i swyddi parhaol a gweithredol/dros dro ar gyfer swyddogion heddlu a staff yr heddlu.	Proses dryloyw, deg ac effeithiol sy'n rhoi mynediad cyfartal at gyfleoedd datblygu/dyrchafiad dros dro.	Rheolwr Adnoddau Dynol	Mawrth 2013
Cyflwyno Rhaglen Gweithredu Cadarnhaol Cymru Gyfan.	Bydd aelodau o Heddlu Gwent sy'n teimlo'u bod yn aelodau o grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol yn gallu goresgyn rhwystrau y maent yn eu hwynebu yn y gweithle mewn modd mwy effeithiol.	Pennaeth Dysgu a Datblygu	Medi 2013
Cyflwyno Hyfforddi a Mentora yn yr heddlu. Sicrhau bod y cyfleuster hwn ar gael i'r rheiny sydd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.	Mwy o allu ac arbenigedd gan bobl yn y sefydliad i helpu eraill i ddatblygu eu sgiliau, rhoi cymorth gyda datblygiad gyrfa a chreu staff mwy effeithiol yn y gweithle.	Rheolwr Datblygu Proffesiynol	Mawrth 2013
Cynyddu'r ymwneud gweithredol gan rwydweithiau cymorth/ cymdeithasau staff er mwyn helpu i recriwtio pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhoi cymorth iddynt a'u cadw.	Rhwydweithiau cymorth sy'n gwneud gwaith wedi'i dargedu ym meysydd recriwtio, cadw, datblygiad gyrfa a chymorth i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.	Rheolwr Datblygiad Proffesiynol / Rhwydweithiau Cymorth	Mawrth 2014
Adolygu trefniadau gweithio hyblyg ar draws y sefydliad, gan roi ystyriaeth i anghenion penodol y grwpiau canlynol o weithwyr, ac ystyried pa un a ofynnwyd am, ac a ganiatawyd trefniant gweithio hyblyg i ddiwallu eu hanghenion: <ul style="list-style-type: none"> rhieni (benywaidd a gwrywaidd); 	Cyfle cyfartal ar gyfer trefniadau gweithio hyblyg trwy roi cymorth i weithwyr hŷn ac anabl, gofalwyr, a rhieni yn y gweithle.	Rheolwr Datblygiad Proffesiynol / Rhwydweithiau Cymorth	Mehefin 2013

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
<ul style="list-style-type: none"> • swyddogion a staff anabl; • gweithwyr hŷn; • gofalwyr (gan gynnwys gweithwyr hŷn â chyfrifoldebau gofalu). <p>I ganfod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pa un a ddefnyddiwyd trefniadau gweithio hyblyg ac i ba raddau y gwnaed hynny i ddiwallu anghenion amrywiol swyddogion a staff; • canfod a oes unrhyw dueddiadau o ran patrymau gweithio hyblyg y gofynnwyd amdanynt ac a ganiatawyd; • datblygu darlun mwy eglur o anawsterau caniatáu trefniadau gweithio hyblyg i swyddogion gan hefyd gynnal y gwasanaeth am 24 awr. • cydberthynas rhwng lefelau salwch a phatrymau gweithio hyblyg sydd ar gael a chyfrifoldebau gofalu swyddogion. <p>Rhoi unrhyw argymhellion priodol ar waith.</p>			

Amcan 9: Dysgu, Hyfforddi a Datblygu

Hyfforddi a datblygu ein gweithlu i gydnabod gwerth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i blismona. (Pobl a Diwylliant, Prosesau Cyfundrefnol).

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
Adolygu deunyddiau darparu cyrsiau i sicrhau, lle y bo'n briodol, bod cydraddoldeb wedi'i gynnwys a'i brif-ffrydio fel rhan o'r holl gyrsiau.	Mae cydraddoldeb wedi'i brif-ffrydio yn yr holl weithgareddau hyfforddi, dysgu a datblygu.	Pennaeth Dysgu a Datblygu	Medi 2013
Adolygu'r broses sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer adnabod a rhoi sylw i addasiadau rhesymol mewn gweithgareddau hyfforddi, dysgu a datblygu.	Mae gan yr holl staff fynediad cyfartal at weithgareddau dysgu, datblygu a hyfforddi yn yr heddlu. Mae'r holl hyfforddiant a ddarperir yn ystyried ac yn rhoi sylw i anghenion unigol dysgwyr.	Pennaeth Dysgu a Datblygu	Medi 2012

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
<p>Mabwysiadu dull dysgu cyfunol i sicrhau bod gweithgareddau dysgu'n cael eu darparu yn y meysydd blaenoriaeth canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dyletswyddau dan y Ddeddf Cydraddoldeb • Rhaglen Arweinyddiaeth Gweithredu Cadarnhaol (Gweler Amc 9) • Stopio a Chwilio (Gweler Amc 6) • Sipsiwn/Teithwyr (Gweler Amc 5) • Trais Domestig (Gweler Amc 1) • Trais sy'n Seiliedig ar Anrhydedd (Gweler Amc 1) • Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Gweler Amc 12) 	Sicrhau proses effeithlon sy'n canfod gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol posib mewn polisïau, gweithdrefnau a swyddogaethau.	Pennaeth Dysgu a Datblygu	Medi 2013

Amcan 10: Anabledd

Cynyddu ymddiriedaeth a hyder pobl anabl yn y gwasanaethau a ddarperir gan Heddlu Gwent a chadw aelodau anabl o staff trwy eu galluogi i gyfranogi a chyfrannu'n llawn trwy fynd i'r afael â rhwystrau yn y gweithle lle y bo'n bosib. (Pobl a Diwylliant, Cyflawni Gweithredol, Prosesau Cyfundrefnol).

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
<p>Cyflawni'r canlynol trwy'r Bwrdd Cyflawni Iechyd Meddwl:</p> <p>Ymgynghori ag asiantaethau statudol a gwirfoddol perthnasol eraill i gwmpasu'r cyfleoedd a'r dulliau ar gyfer asesu lefelau'r hyder yn y gyfundrefn blismona ymhlith pobl ag afiechyd meddwl neu anabledd dysgu.</p>	Mesurau ar waith i asesu lefelau bodlonrwydd ar, a hyder yn y gyfundrefn blismona ymhlith pobl ag afiechyd meddwl neu anabledd dysgu.	Arweinydd Iechyd Meddwl	Mawrth 2013
<p>Datblygu a sefydlu arfer rheoli effeithiol priodol gan gynnwys polisi afiechyd i ymdrin â materion iechyd meddwl sy'n effeithio ar aelodau o staff.</p>	Amgylchedd cefnogol i staff sy'n dioddef afiechyd meddwl	Rheolwr Iechyd Galwedigaethol	Mawrth 2013
<p>Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, i ddeall</p>	Cadw swyddogion ac aelodau o staff anabl yn y	Rheolwr Adnoddau Dynol	Mawrth 2013

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
yn well sut y gall staff gael mynediad at addasiadau rhesymol ac/neu gymorth trwy Fynediad i Waith a rhoi arweiniad/hyfforddiant penodol i oruchwylwyr i'w galluogi i roi hyn ar waith.	gweithlu, trwy sicrhau bod ganddynt yr un mynediad at bopeth sy'n gysylltiedig â chyflawni a chadw swydd ag sydd gan swyddog neu aelod o staff na yw'n anabl.	/ Rhwydweithiau Cymorth	

Amcan 11: Darpariaethau i Rien

Sicrhau bod gan swyddogion a staff fynediad at wybodaeth am ddarpariaethau a phrosesau yn y gweithle gan gynnwys beichiogrwydd, absenoldeb mamolaeth a thadolaeth, a dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth. Sicrhau nad yw swyddogion a staff yn cael eu rhoi dan anfantais am eu bod wedi cymryd cyfnod o absenoldeb mewn perthynas â dyletswyddau fel rhiant. (Pobl a Diwylliant).

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
Adnabod a rhoi sylw i unrhyw faterion mewn perthynas â: <ul style="list-style-type: none"> • bylchau gwybodaeth gan reolwyr llinell mewn perthynas â materion mamolaeth • y rolau cyfyngedig a gyflawnir gan swyddogion/staff benywaidd a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ddatblygiad/camu ymlaen • cymorth/gwybodaeth addas mewn perthynas â chyfleusterau bwydo o'r fron 	Nid yw swyddogion a staff benywaidd dan anfantais am eu bod wedi cymryd cyfnod o absenoldeb mamolaeth.	Rheolwr Adnoddau Dynol / Rhwydweithiau Cymorth	Hydref 2013

Amcan 12: Sefydlu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Trwy ein Polisiâu, Gweithdrefnau a Phrosesau

Datblygu ein diwylliant i sefydlu egwyddorion cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn, gan gydnabod a pharchu gwerthoedd unigolion a gwahaniaethau pobl. (Pobl a Diwylliant, Prosesau Cyfundrefnol).

Cam Gweithredu	Deilliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
Ystyried deilliannau ymgynghoriadau'r Llywodraeth ynghylch y mesurau cydraddoldeb mewn perthynas â materion prynu sy'n gysylltiedig â chaffael a lle y bo'n briodol, cymryd unrhyw gamau angenrheidiol.	Cydraddoldeb yn cael ei ysgogi trwy'r swyddogaeth gaffael a chodi i safle uwch ym Mynegai Cydraddoldeb Stonewall.	Pennaeth Caffael	Mawrth 2014
Rhoi arweiniad/hyfforddiant i sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu prif-frydio ym mholisiâu a phrosesau'r heddlu. (Gweler amcan 9).	Sicrhau proses effeithlon sy'n adnabod gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol posib mewn polisiâu, gweithdrefnau a swyddogaethau.	Pennaeth Dysgu a Datblygu	Yn barhaus
Sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal lle mae newidiadau i wasanaethau busnes neu'r ystâd yn arwain at adleoli personél i ganfod a yw'r newid hwn yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp penodol. Lle adnabyddir effaith o'r fath, rhoddir ystyriaeth i gamau gweithredu priodol a lle y bo'n briodol bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith.	Adnabod gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol posib mewn polisiâu, gweithdrefnau a swyddogaethau.	Rheolwr Adnoddau Dynol	Medi 2014
Parhau i annog cyfranogiad yn y Weithdrefn Tegwch yn y Gwaith, adolygu'r cymorth a roddir i staff sy'n rhan o'r broses.	Mae staff yn hyderus wrth ddefnyddio'r Weithdrefn Tegwch yn y Gwaith i fynd i'r afael â materion yn y gweithle.	Rheolwr Adnoddau Dynol / Rhwydweithiau Cymorth	Medi 2014
Creu Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn yr heddlu i hybu amgylchedd gwaith cadarnhaol lle mae staff yn cael eu trin yn deg ac â pharch.	Annog staff i chwarae rhan yn y gwaith o greu amgylchedd lle deallir fod aflonyddu, bwlio ac erledigaeth yn fathau annerbyniol o ymddygiad.	Dirprwy Brif Gwnstabl	Medi 2014

Cam Gweithredu	Deiliant	Perchennog	I'w gwblhau erbyn
Ystyried deilliannau ymgynghoriadau'r Llywodraeth ynghylch y mesurau cydraddoldeb mewn perthynas â materion prynu sy'n gysylltiedig â chaffael a lle y bo'n briodol, cymryd unrhyw gamau angenrheidiol.	Cydraddoldeb yn cael ei ysgogi trwy'r swyddogaeth gaffael a chodi i safle uwch ym Mynegai Cydraddoldeb Stonewall.	Pennaeth Caffael	Mawrth 2014

